


# Lles yn y gwaith

Canllawiau i gyflogwyr ar ddarpariaethau lles



Mae hwn yn fersiwn  
gwe-gyfeillgar o daflen  
INDG293W(rev1), a  
adolygydd 09/07

## Cyflwyniad

Os byddwch yn cyflogi unrhyw un (waeth pa mor fyr yw'r cyfnod) mae'n rhaid i chi 'cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol', ddarparu cyfleusterau lles digonol a phriodol iddynt tra byddant yn y gwaith. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu cyfleusterau o'r fath oni bai bod hynny'n amlwg yn afresymol o ran amser, trafferth, cost ac anhawster ffisegol.

'Cyfleusterau lles' yw'r rheini sy'n angenrheidiol ar gyfer lles eich cyflogeion, fel cyfleusterau ymolchi, toiled, gorffwys a newid, a rhywle glân i fwyta ac yfed yn ystod seihiannau.

Mae'r daflen hon yn rhoi cyngor syml, ymarferol i chi ar sut y gallwch fodloni'r gofynion hyn. Gallai'r wybodaeth fod o ddiddordeb hefyd i gyflogeion a'r hunangyflogedig.

Mae'n crynhoi gofynion Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992. Gweler 'Canfod mwy' i gael rhagor o wybodaeth ddefnyddiol.

Efallai y byddwch yn gweld ei bod yn ddefnyddiol trafod eich anghenion gyda gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr cyfleusterau, gwasanaethau a nwyddau traul lles.

## Pa gyfleusterau toiled ac ymolchi sy'n rhaid i mi eu darparu?

Mae'n rhaid i chi ddarparu cyfleusterau toiled ac ymolchi digonol i'ch cyflogeion. Mae 'digonol' yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu:

- digon o doiledau a basnau ymolchi i'r rhai y disgwylir iddynt eu defnyddio - ni ddylai pobl orfol ciwio am gyfnodau hir i fynd i'r toiled;
- ble y bo'n bosibl, cyfleusterau ar wahân i ddynion a merched - os nad yw hynny'n bosibl, ystafelloedd gyda drysau sy'n cloi;
- cyfleusterau glân - er mwyn helpu hyn dylid teilsio'r waliau a'r lloriau yn ddelfrydol (neu eu gorchuddio â deunydd diddos addas) i'w gwneud yn haws eu glanhau;
- cyflenwad o bapur toiled ac, ar gyfer cyflogeion sy'n ferched, modd i waredu cadachau misglwyf;
- cyfleusterau sydd wedi'u goleuo a'u hawyu'n dda;
- cyfleusterau sydd â dŵr oer a phoeth sy'n rhedeg;
- digon o sebon neu ddeunydd ymolchi arall;
- basn sy'n ddigon mawr i olchi dwylo a rhannau isaf y breichiau os bydd angen;
- modd i sychu dwylo, e.e. tyweli papur neu sychwr aer poeth;
- cawodydd pan fo angen, e.e. ar gyfer gwaith arbennig o fudr.

Dylech ystyried anghenion pobl ag anableddau bob amser.

## Faint o gyfleusterau sydd angen i mi eu darparu?

Mae'r tablau canlynol yn dangos isafswm y toiledau a basnau ymolchi y dylid eu darparu.

Tabl 1 Nifer y toiledau a basnau ymolchi ar gyfer defnydd cymysg (neu ferched yn unig)

Nifer y bobl yn y gwaith	Nifer y toiledau	Nifer y basnau ymolchi
1-5	1	1
6-25	2	2
26-50	3	3
51-75	4	4
76-100	5	5

Tabl 2 Toiledau a ddefnyddir gan ddynion yn unig

Nifer y dynion yn y gwaith	Nifer y toiledau	Nifer yr wrinalau
1-15	1	1
16-30	2	1
31-45	2	2
46-60	3	2
61-75	3	3
76-90	4	3
91-100	4	4

## Beth os bydd staff yn gweithio mewn gweithleoedd anghysbell heb blymio a chyflenwad dŵr addas?

Efallai y bydd angen i chi ddarparu toiledau cemegol a chyfleusterau ymolchi fel cynhwysyddion dŵr.

## Beth os bydd fy nghyflogeion yn gweithio mewn gweithfannau dros dro?

'Cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol' mae angen i chi ddarparu toiledau sy'n fflysiol a dŵr sy'n rhedeg. Mae cabanau symudol wedi'u trawsnewid yn gyfleusterau toiled ar gael gan gwmniau llogi. Os nad yw hyn yn bosibl, ystyriwch bethau eraill fel toiledau cemegol a chynhwysyddion dŵr.

Y dewis olaf ddylai defnyddio toiledau a chyfleusterau ymolchi cyhoeddus ac ni ddylid eu defnyddio dim ond am eu bod yn ddewis rhatach. Ni fyddai hyn yn dderbyniol lle byddai darparu cyfleusterau gwell yn rhesymol ymarferol.

## A oes angen i mi ddarparu dŵr yfed?

Oes. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddarparu dŵr yfed a sicrhau:

- ei fod yn rhydd o halogiad ac yn ddelfrydol yn dod o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus - mae peiriannau dŵr potel yn dderbyniol fel ail gyflenwad;

- y gall pob cyflogai gael gafael arno'n hawdd;
- bod digon o gyflenwadau o ystyried tymheredd yr amgylchedd gwaith a'r mathau o weithgarwch gwaith;
- y darperir cwpau neu ffynnon yfed.

Nid oes rhaid nodi dŵr yfed oni bai bod risg sylweddol fod pobl yn yfed dŵr na ddylid ei yfed.

## A oes rhaid i mi ddarparu ystafell ar gyfer y rheini sy'n ysmyu?

Nac oes. Mae'n anghyfreithlon ysmyu ym mhob lle a gweithle cyhoeddus caeädig fwy neu lai yng Nghymru, gan gynnwys y rhan fwyaf o gerbydau gwaith. Mae deddfwriaeth debyg yn bodoli yn Lloegr a'r Alban. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn [www.gwaharddsmygucymru.co.uk](http://www.gwaharddsmygucymru.co.uk).

## Pa drefniadau y dylwn eu gwneud ar gyfer seibiannau prydau bwyd?

Dylai fod ardal eistedd addas er mwyn i weithwyr ei defnyddio yn ystod seibiannau - mae angen iddi fod yn lân ac wedi'i lleoli lle na fydd bwyd yn cael ei halogi.

Dylai fod cyfleusterau golchi gerllaw, a modd i wresogi bwyd neu ddŵr ar gyfer diodydd poeth. Mae'n rhaid i chi gynnal safonau hylendid da.

## Pa gyfleusterau sydd angen i mi eu darparu ar gyfer newid a storio dillad?

Os yw'r gweithgarwch gwaith yn ei gwneud yn ofynnol i'ch cyflogeion newid i ddillad arbenigol a'u gwisgo (oferôls, ivnifform, dillad cynnes ac ati), mae'n rhaid i chi ddarparu digon o ystafelloedd newid ar gyfer nifer y bobl y disgwyli'r iddynt eu defnyddio.

Pan ddarperir ystafell newid dylai:

- fod yn gwbl hygrych;
- cynnwys cyfleusterau storio dillad ac ymolchi neu arwain yn uniongyrchol atynt;
- darparu lleoedd i eistedd;
- darparu modd i hongian dillad - gallai bachyn neu beg fod yn ddigonol;
- sicrhau preifatrwydd defnyddwyr.

Dylai fod cyfleusterau newid ar wahân i ddynion a merched.

Ceisiwch atal dillad y cyflogeion rhag dod i gysylltiad â dillad gwaith brwnt neu fynd yn frwnt neu'n wlyb. Darparwch le ar wahân i storio dillad glân a dillad wedi'u halogi sydd:

- yn caniatáu i ddillad gwlyb gael eu hongian i sychu yn ystod y dydd;
- wedi'i awyru'n dda.

Gellir cael canllawiau ar wahân gan HSE Books ar ddarparu offer amddiffynnol personol (gweler 'Canfod mwy').

## A oes angen i mi ddarparu cyfleusterau gorffwys i ferched beichiog a mamau sy'n bwydo ar y fron?

Oes, os yw'n 'rhesymol ymarferol' i chi wneud hynny. Efallai y bydd angen i chi ddarparu ystafell ar gyfer merched beichiog/mamau sy'n bwydo ar y fron i orffwys neu orwedd i lawr.

## Os wyf wedi gwneud y rhain i gyd, ydw i wedi gwneud digon?

Nac ydych. Mae'n rhaid i chi hefyd sicrhau y caiff y cyfleusterau eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da, a bod digon o bapur toiled, sebon ac ati bob amser. Mae hyn yn golygu bod angen i chi roi system effeithiol ar waith i'w cynnal hyd at safon uchel, gan gynnwys glanhau yn rheolaidd.

Gofynnwch i chi eich hun - a fyddch chi'n hapus i ddefnyddio'r cyfleusterau lles rydych yn eu darparu i'ch cyflogcioneion?

### Canfod mwy

*Iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle: Canllaw byr i reolwyr*  
Taflen INDG244W/E(rev1) HSE Books 2006 (copi unigol am ddim neu becynnau o 15 i'w prynu ISBN 978 0 7176 6192 1)

*Workplace health, safety and welfare. Workplace (Health, Safety and Welfare) Regulations 1992. Approved Code of Practice and guidance L24* HSE Books 1992  
ISBN 978 0 7176 0413 5

*A short guide to the Personal Protective Equipment at Work Regulations 1992*  
INDG174(rev1) HSE Books 2005 (copi unigol am ddim neu becynnau o 15 i'w prynu ISBN 978 0 7176 6141 1)

*Provision of welfare facilities at fixed construction sites* Taflen Wybodaeth Adeiladu CIS18(rev1) HSE Books 1998

*Provision of welfare facilities at transient construction sites* Taflen Wybodaeth Adeiladu CIS46 HSE Books 1997

### Rhagor o wybodaeth

Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth a chyhoeddiadau HSE sydd am ddim ar gael trwy archebu drwy'r post gan: HSE Books, PO Box 1999, Sudbury, Suffolk CO10 2WA Ffôn: 01787 881165 Ffacs: 01787 313995 Gwefan: [www.hsebooks.co.uk](http://www.hsebooks.co.uk) (Mae cyhoeddiadau HSE sydd ar werth ar gael hefyd o siopau llyfrau a gellir llwytho taflenni am ddim i lawr o wefan HSE: [www.hse.gov.uk](http://www.hse.gov.uk).)

I gael gwybodaeth am iechyd a diogelwch, ffoniwch Linell Wybodaeth HSE Ffôn: 0845 345 0055 Ffacs: 0845 408 9566 Ffôn testun: 0845 408 9577 e-bost: [hse.infoline@natbrit.com](mailto:hse.infoline@natbrit.com) neu ysgrifennwch i Gwasanaethau Gwybodaeth HSE, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3GG.

**Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nodiadau ar arfer da nad ydynt yn orfodol ond a allai fod yn ddefnyddiol wrth i chi ystyried yr hyn y mae angen i chi ei wneud.**

Mae'r daflen hon ar gael mewn pecynnau o 20 sydd ar werth o HSE Books, ISBN 978 0 7176 6278 4. Mae copïau unigol am ddim hefyd ar gael o HSE Books.

© Hawlfraint y Goron Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn am ddim, ac eithrio at ddibenion hysbysebu, arnodi neu fasnachu. Cyhoeddwyd gyntaf 09/07. Cydnabyddwch y ffynhonnell fel HSE.